**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Iechyd a Gofal
Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

31 Hydref 2017

**Adroddiad er budd y Cyhoedd - Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog**

Annwyl Dr Goodhall,

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2017 yr Adroddiad er budd y Cyhoedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sef Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog.

Holwyd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gan y Pwyllgor ynghylch y broses ar gyfer penodi ar lefel uwch-weithredol â chyflogau uwch na'r cyfraddau cyflog a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. Mynegodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r Pwyllgor lle bo'r broses recriwtio yn denu fawr ddim o geisiadau os o gwbl gan nad yw'r cyflog a hysbysebir yn gystadleuol, nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu cydsynio i hysbysebu swydd ar gyfradd cyflog uwch. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhywfaint o eglurhad yn hyn o beth gan ein bod ar ddeall nad dyma'r sefyllfa. Fodd bynnag, os mai dyma'r achos, byddem yn croesawu eglurhad pam nad oes dim hyblygrwydd yn y system i sicrhau y gellir recriwtio ymgeiswyr teilwng i'r swyddi hyn.

Yn gywir



**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565